

Rheoleiddio Ein Dyfodol - Dogfennau pwysig

Rydyn ni'n anelu at ddull cynaliadwy o reoleiddio diogelwch bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, i annog busnesau i newid ymddygiadau a fydd o fudd i ddefnyddwyr. Rhwng nawr a 2020, rydyn ni'n bwriadu gweithredu a chyflwyno model rheoleiddio newydd ar gyfer bwyd. Fel rhan o hyn, byddwn ni'n cyhoeddi dogfennau allweddol, astudiaethau, ymchwil beilot ac ymchwil data i gefnogi rhaglen [Rheoleiddio ein Dyfodol](#).

Newid rheoleiddio bwyd: yr hyn yr ydym wedi'i wneud, lle rydym ni'n mynd nesaf

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r gwahaniaeth y bydd cyflwyno rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol yn ei wneud i ddefnyddwyr, awdurdodau lleol, cyrff gorfodi cyfraith bwyd eraill a busnesau. Rydym ni'n disgrifio'r cynnydd hyd yn hyn ar gyflwyno Strategaethau Arolygu Cenedlaethol a Chofrestru Manylach; sut mae ein gwaith ar reoleiddio sicrwydd preifat yn mynd rhagddo; ein dull o fynd ati i ddylunio model cyllido cynaliadwy ar gyfer y gyfundrefn newydd; a'n hymdrechion o'r newydd i'w gwneud yn orfodol arddangos Sgoriau Hylendid Bwyd mewn safleoedd bwyd yn Lloegr.

[View Newid rheoleiddio bwyd: yr hyn yr ydym wedi'i wneud, lle rydym ni'n mynd nesaf as PDF](#)
(605.43 KB)

Pam fod yn rhaid i'r system rheoleiddio bwyd newid a sut ydym ni am wneud hyn

Yn 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi ein cynlluniau i newid y system rheoleiddio bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Darllenwch sut rydyn ni'n gobeithio trawsnewid y ffordd y caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio.

[View Pam fod yn rhaid i'r system rheoleiddio bwyd newid a sut ydym ni am wneud hyn as PDF](#)
(464.65 KB)

Cyfathrebu ar gyfer treial Cydymffurfiaeth

Comisiynwyd Ipsos MORI gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i gynnal treial rheolaeth ar hap. Pwrpas y treial oedd sefydlu effaith gwybodaeth wedi'i hailgynllunio ynglŷn â diogelwch bwyd a'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) sy'n cael ei hanfon gan awdurdodau lleol at gr?p ymyrryd a ddewiswyd ar hap o fusnesau bwyd newydd eu cofrestru. Roedd yr ASB a BEIS eisiau ymchwilio i weld a allai newidiadau i gyfathrebiadau awdurdodau lleol wella sgôr hylendid bwyd busnesau yn ystod eu harolygiad cyntaf gan yr awdurdod lleol.

Ni chanfu'r treial unrhyw effaith h.y. nid oedd gan y rheiny yn y gr?p ymyrryd sgôr hylendid bwyd sylweddol uwch na'r rheiny yn y gr?p rheolaeth. Serch hynny, mae'r adroddiad yn nodi rhai ystyriaethau ymarferol ar gyfer gwneud y gorau o gyfathrebiadau awdurdodau lleol yn y dyfodol, gan ddefnyddio tystiolaeth gan fusnesau ac o ddogfennau ehangach.

[View Communicating for compliance trial as PDF](#) (873.7 KB)

Astudiaeth dichonoldeb KitchenLogs Cyngor Harrow

Fe wnaethom ni gynnal astudiaeth ddichonoldeb gyda KitchenLogs a Chyngor Harrow i ddarganfod a yw defnyddio system rheoli diogelwch bwyd ddigidol yn gallu helpu i gynyddu'r sgôr hylendid bwyd a gwella hylendid a safonau bwyd. Roedd yr astudiaeth hefyd yn edrych ar y broses o rannu data rhwng y system ddigidol a'r awdurdod lleol.

Darllenwch ein hadroddiad sy'n trafod canlyniadau'r astudiaeth:

[View Astudiaeth dichonoldeb KitchenLogs Cyngor Harrow \(Saesneg yn unig\) as PDF](#) (147.61 KB)

Asesu gwasanaeth cofrestru busnes bwyd

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth digidol newydd ar gyfer cofrestru busnesau bwyd yn bodloni safonau dylunio gwasanaethau'r Llywodraeth, fe wnaethom ni gynnal asesiad o gam alffa'r datblygiad. Mae'r adroddiad hwn, a gyflwynir gan gyfoedion o adrannau eraill y llywodraeth, yn dangos sut mae'r gwasanaeth yn bodloni'r safonau gofynnol a'r camau nesaf sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i gyfnod beta.

Bydd canlyniadau'r asesiad yn ein helpu i ddatblygu'r gwasanaeth digidol ar gyfer cofrestru busnes bwyd ymhellach.

[View Asesu gwasanaeth cofrestru busnes bwyd \(Saesneg yn unig\) as PDF](#) (176.48 KB)

Llwybrau i Gofrestru

Mae'r ymchwiliad a'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth a fydd yn helpu'r ASB (a rhaglen ROF yn benodol) i:

- Sefydlu perfformiad y system gyfredol ar gyfer cofrestru a chymeradwyo busnesau bwyd;
- Galluogi'r ASB i nodi'r lefel a'r math o gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau newydd a helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu dulliau i gynorthwyo cydymffurfiaeth busnesau â chyfraith bwyd ac i ddiogelu defnyddwyr.

Paratoi Awdurdodau Lleol at newidiadau i'r broses o gofrestru busnes bwyd

Rydym ni wedi dechrau treialu gwasanaeth cofrestru busnes bwyd ar-lein gyda nifer o awdurdodau lleol. Ein nod yw cyflwyno'r gwasanaeth newydd fesul cam drwy gael tua 40 o awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio erbyn mis Mawrth 2019 a'r gweddill erbyn mis Mawrth 2020. Yn ddiweddar, gwnaethom ni ddsbarthu arolwg i Uwch-arweinwyr TG Awdurdodau Lleol i wella ein dealltwriaeth o'r dirwedd TG. Rydym ni'n gofyn am eich cefnogaeth chi wrth lenwi'r [Arolwg](#), gan y bydd hyn yn ein helpu i hwyluso'r cyfnod pontio i'r gwasanaeth cofrestru digidol newydd.

Bydd API cofrestru, sef y dull safonol ar gyfer symud data rhwng systemau a sefydliadau, yn galluogi systemau rheoli gwybodaeth awdurdodau lleol i ddefnyddio cofrestru busnesau bwyd a fewnbynnyd ar ffurflenni gwe newydd yr ASB. Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol a'u darparwyr systemau rheoli gwybodaeth i addasu eu cynhyrchion, fel y gallant fewnynnu cofrestruadau'n ddiogel drwy'r API. Rydym ni hefyd yn cydnabod efallai bod gan rai awdurdodau lleol eu systemau annibynnol eu hunain a byddwn ni'n datblygu dulliau i sicrhau eu bod nhw'n gallu defnyddio'r gwasanaeth a gyflwynir.

Os cewch unrhyw drafferth yn defnyddio'r arolwg hwn, cysylltwch â john.baines@performgreen.co.uk.

Astudiaeth Dichonoldeb Telemetreg

Gwnaethom gynnal Astudiaeth Ddichonoldeb i ddangos gwerth defnyddio synwryddion digidol amser real i fonitro'n awtomatig dymheredd offer cegin allweddol ac i storio data byw. Roedd yr astudiaeth hefyd yn ystyried sut y gellir defnyddio data amser real i wirio a dangos cydymffurfiaeth mewn ffordd sy'n fwy effeithlon na systemau ar bapur.

Darllenwch ein hadroddiad sy'n tynnu sylw at ganlyniadau'r astudiaeth yma.

[View Adroddiad Astudiaeth Dichonoldeb Telemetreg \(Saesneg yn unig\) as PDF](#) (162.28 KB)

Astudiaeth Dichonolrwydd *CheckIt*

Gellid defnyddio technoleg ddigidol newydd a ddefnyddir gan fusnesau bwyd i reoli arferion hylendid hefyd i helpu swyddogion iechyd yr amgylchedd i fonitro busnesau bwyd mewn amser real.

Gallai hyn eu helpu i ganfod problemau diogelwch bwyd yn gynt a gwella diogelwch i'r cyhoedd. Darllenwch ein hastudiaeth sy'n nodi canlyniadau treial y dull newydd hwn.

[View CheckIt Feasibility Study Report as PDF](#) (398.62 KB)

Araith Fforwm Bwyd a Maeth, San Steffan

Rydyn ni wedi cyhoeddi arraith a draddodwyd gan ein Cadeirydd, Heather Hancock, i Fforwm Bwyd a Maeth San Steffan ar Ebrill 24. Trafododd y Cadeirydd dyfodol maes rheoleiddio bwyd yn y Deyrnas Unedig (DU) wedi i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Roedd ei harraith yn cynnwys pedwar prif faes, sef pam fod rheoleiddio bwyd yn bwysig ar ôl i ni ymadael â'r UE, sut fydd y drefn reoleiddio newydd yn gweithio'n ymarferol, sut fydd bwyd yn cael ei reoleiddio a phwy fydd yn gyfrifol amdano.

[View Westminster Food and Nutrition Forum speech as PDF](#) (204.07 KB)

Prosiect Peilot Safon Fyd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain ar gyfer Diogelwch Bwyd

Fe wnaethon ni gyhoeddi canfyddiadau astudiaeth beilot sy'n nodi'r posibilrwydd i gynllun sicrwydd Safonau Byd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain chwarae rhan mewn cynllun sicrwydd preifat a gaiff ei reoleiddio, sef un o rannau allweddol model Rheoleiddio Ein Dyfodol.

Er gwaethaf ei bod wedi dechrau cyn y cytunwyd ar fodel Rheoleiddio Ein Dyfodol, symudodd yr astudiaeth beilot oddi wrth ei dull gwreiddiol er mwyn canolbwyntio ar sut y gallai Safon Fyd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain gefnogi egwyddorion allweddol y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael a disgwyl i fusnesau wneud y peth iawn.

Mae sicrwydd preifat wedi'i reoleiddio yn elfen allweddol o fframwaith sicrwydd y rhaglen. Mae cynlluniau sicrwydd, megis Safon Fyd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain, yn un o'r nifer o ffynonellau data sy'n cael eu hystyried o dan y model.

[View FSA BRC Global Standards pilot report as PDF](#) (598.38 KB)

Strategaeth Arolygu Genedlaethol ar gyfer Prif Awdurdodau: Astudiaeth

Dichonolrwydd

Fe wnaethon ni gyhoeddi astudiaeth ddichonolrwydd Rheoleiddio Ein Dyfodol sy'n edrych ar sut y gall cynllun y Prif Awdurdod, yn enwedig Strategaethau Arolygu Cenedlaethol, chwarae rhan yn system rheoleiddio busnesau bwyd y dyfodol.

Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn ein helpu i ddatblygu safon newydd ar gyfer awdurdodau cynradd sy'n dymuno sefydlu strategaethau arolygu cenedlaethol ar gyfer bwyd.

[View Astudiaeth Dichonolrwydd: Strategaeth Arolygu Genedlaethol as PDF](#) (224.18 KB)

Data archwilio a gofynion diogelwch bwyd

Fe wnaethon ni gyhoeddi canfyddiadau dau brosiect a oedd yn edrych ar p'un y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio data archwilio a gasglwyd gan fusnesau bwyd i wirio safonau hylendid bwyd a phennu sgoriau.

O fis Medi i fis Rhagfyr 2016, aethon ni ati i weithio gyda Tesco, Mitchells & Butlers, yr archwilwyr y maent yn eu defnyddio ac awdurdodau lleol. Roedden ni am brofi data sicrwydd y cwmnïau yn erbyn y gofynion diogelwch bwyd y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio i wirio bod busnesau bwyd yn cydymffurfio.

[View Mitchells & Butlers report as PDF](#) (788.3 KB)

[View Adroddiad Tesco \(Saesneg yn unig\) as PDF](#) (459.3 KB)

Cost rheoleiddio Asiantaeth Safonau Bwyd a Chyfraith Bwyd i ddiwydiant bwyd y DU

Fel rhan o'n gwaith i foderneiddio'r system rheoleiddio bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'n rhaid i ni ystyried costau gweithredu'r system gyfredol - y gost sylfaenol - ac effaith ariannol unrhyw newidiadau posibl.

Fe wnaethon ni gomisiynu astudiaeth i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r costau ariannol ac amser ar gyfer busnesau bwyd sy'n cydymffurfio â chyfraith bwyd. Roedden ni hefyd am ddeall y costau sy'n gysylltiedig â'r system reoleiddio.

Cafodd y dadansoddiad a'r amcangyfrifon eu casglu trwy arolwg a chyfweliadau. Bydd y canfyddiadau yn helpu i lywio ein hamcangyfrifon sylfaenol o gostau rheoleiddio yn gyffredinol.

[View Cost of Regulation and Food Law to the food industry as PDF](#) (1.25 MB)

Cyngor Bwrdeistref Taunton Dean, Cyngor Gorllewin Gwlad yr Haf a Scoresafe – Astudiaeth Dichonolrwydd

Rydym ni wedi cyhoeddi astudiaeth dichonolrwydd Rheoleiddio Ein Dyfodol sy'n edrych ar y broses o gofrestru busnesau bwyd drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Pwrpas yr astudiaeth oedd i ystyried syniadau newydd ar gofrestru busnesau bwyd, deall yr arfer gorau a gwersi a ddysgwyd yn y maes hwn er mwyn gallu datblygu'r model rheoleiddio gorau posibl ar gyfer bwyd.

Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn ein galluogi i ddatblygu'r system ddigidol ar gyfer cofrestru busnesau bwyd ymhellach.

[View Astudiaeth Dichonolrwydd Scoresafe \(Saesneg yn unig\) as PDF](#) (158.06 KB)

Adolygu cynlluniau trwyddedu

Fe wnaethom ni gynnal yr adolygiad hwn i edrych ar sut mae cynlluniau trwyddedu yn gweithio yn gyffredinol. Fe wnaethom ni adolygu saith cynllun trwyddedu a oedd wedi/wrthi'n cael eu gweithredu/treialu yn y Deyrnas Unedig. Roeddem ni am gael gwell dealltwriaeth o sut mae cynlluniau trwyddedu yn gweithredu, adolygu'r mathau o orfodi ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio o ran eu heffeithiolrwydd ac adolygu cryfderau a gwendidau cynlluniau trwyddedu.

Rydym ni'n defnyddio' mewnwelediad yr adolygiad hwn i lywio argymhellion y dyfodol yngl?n â chynllun adolygu busnes bwyd posibl – 'Trwydded i fasnachu'.

Cymru

[View Adolygiad o Gynlluniau Trwyddedu as PDF](#) (1.02 MB)

Sicrhau bod busnesau bwyd yn cydymffurfio'n well

Cynhaliwyd yr adolygiad llenyddiaeth hwn i ddeall sut mae busnesau'n ymddwyn, a sut y gall ymchwil o'r fath helpu i wella cydymffurfiaeth busnesau bwyd â chyfraith bwyd. Bydd yr ymchwil hwn yn helpu i lywio'r drafodaeth am newid ymddygiadau busnesau o blaid cydymffurfio. Fe fydd hefyd yn ein helpu ni i greu canllawiau wedi'u teilwra'n well ar gyfer busnesau newydd drwy'r system Cofrestru Busnesau Bwyd.

Cymru

[View Sicrhau bod busnesau bwyd yn cydymffurfio'n well as PDF](#) (1.44 MB)